



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## **Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Gorffennaf 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar lacio Rheoliadau Trefniadau Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020 a fyddai'n dod i rym ar ddechrau tymor yr Hydref 2020, o ganlyniad i newidiadau arfaethedig i lleddfu'r baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

### Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **10 Gorffennaf 2020** fan bellaf.

[IMS@gov.wales](mailto:IMS@gov.wales)

### Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau). Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Gellir dod o hyd i Reoliadau Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth i ysgolion yn:

<https://llyw.cymru/rheoliadau-syn-llywodraethur-strategaeth-rheoli-gwybodaeth>

Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i:

[IMS@gov.wales](mailto:IMS@gov.wales)

### Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion  
Llywodraeth Cymru  
e-bost: [IMS@gov.wales](mailto:IMS@gov.wales)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu drefnu ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i gynnal y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir ag unrhyw waith o'r fath o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, bydd unrhyw ddata a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a ddelir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## **Cynnwys**

|   |           |
|---|-----------|
| <b>Cefndir</b>  | <b>6</b>  |
| <b>Cynnig</b>   | <b>6</b>  |
| <b>Camau Nesaf</b>  | <b>6</b>  |
| <b>Manylion deddfwriaethol a'r Rheoliadau arfaethedig i'w diwygio</b> | <b>7</b>  |
| <b>Diwygiadau i bolisi canlyniadol</b>                                | <b>10</b> |

## Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, yn ystod y cyfnod hwn, lle mae pob un ohonom yn ymateb i bandemig y coronafeirws, mae'n bosibl na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu yn gallu cydymffurfio â rhai gofynion statudol. Gallant hefyd osod baich weinyddol anghymesur ar y rheini sy'n gyfrifol, ar adeg pan maent eisoes o dan bwysau eithriadol. O ganlyniad, rydym yn cynnig dod â threfniadau diwygio Rheoliadau i rym a fydd yn addasu neu'n datgymhwysu nifer o ofynion adrodd cyfredol mewn ysgolion.

2. Cyflwynwyd gohebiaeth i randdeiliaid allweddol ym mis Mai 2020 i ddarparu hysbysiad ymlaen llaw o'r newidiadau rheoleiddiol arfaethedig a'r goblygiadau i ysgolion. Cafodd yr hysbysiad ei gyflwyno fel ymateb uniongyrchol i ymholiadau gan randdeiliaid a oedd yn ceisio eglurder amserol ar ofynion adrodd mewn ysgolion. Cafodd y cyngor ei gyflwyno yn unol â'r broses ddeddfwriaethol.

## Y Cynnig

3. Bydd Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn gwneud y canlynol:

- Diddymu **Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru)**.
- Diwygio **Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rien i a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011** ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/2020.
- Diwygio **Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011** ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.
- Diwygio **Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011** ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.
- Diwygio **Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011** ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

## Y Camau Nesaf

4. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich barn ar y cynnig hwn. Dylid anfon ymatebion drwy e-bost erbyn 10 Gorffennaf 2020 fan bellaf. Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch hynny yn eich ymateb.

5. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig y daw'r newidiadau i rym cyn dechrau blwyddyn academaidd 2020.

## **Manylion deddfwriaethol a'r Rheoliadau arfaethedig i'w diwygio**

6. Mae'r trefniadau adrodd cyfredol mewn ysgolion yn seiliedig ar gyfres o Reoliadau a chanllawiau statudol. Bydd y gwaith arfaethedig o ddiwygio'r Rheoliadau yn diddymu un cyfres o Reoliadau a diwygio nifer o rai eraill. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i lunio adroddiadau ar yr ysgol a'r disgyblion a chofnodi presenoldeb disgyblion mewn cofrestr. Rhestrir y Rheoliadau a gaiff eu diddymu neu eu diwygio isod.

### **Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Targed”)**

7. Mae'r Rheoliadau Targed yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion bennu a chyhoeddi targedau y cytunwyd arnynt gan awdurdodau lleol. O ganlyniad i'r ffaith bod ysgolion wedi'u cau a'r amharu ar asesiadau, profion ac arholiadau, bydd manylion cyrhaeddiad a phresenoldeb eleni naill ai ddim ar gael neu ni ellir cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol. Mae'n amhriodol i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion adrodd yn erbyn targedau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 na phennu targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn seiliedig ar y canlyniadau hyn. Mae angen diddymu'r Rheoliadau Targed er mwyn sicrhau y gall ysgolion ymgymryd â'u gwaith o hunanwerthuso a blaengynllunio ar gyfer 2020/21 yn briodol ac yn effeithiol, o ystyried yr amgylchiadau presennol. Mae'r cylch pennu targedau, fel y'i rhagnodir gan y Rheoliadau Targed, yn digwydd dros gyfnod o dair blynedd. Mae goblygiadau'r amharu presennol ar ddata perfformiad ac absenoldeb yn effeithio ar adolygu, cadarnhau ac adrodd yn erbyn targedau a bennwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â'r broses o osod, adolygu a chadarnhau targedau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cyflwyno problem benodol o ran diwygio gofynion sy'n bodoli eisoes; ystyrir mai diddymu'r Rheoliadau Targed yw'r unig ateb hyfyr ac ymarferol. Mae trefniadau gwerthuso a gwella yn cael eu datblygu er mwyn cydweddu â'r cwricwlwm newydd a byddant yn pennu'r dull gweithredu o ran blaenoriaethau gwella ysgolion, yn dilyn ymgynghoriad pellach.

### **Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Adrodd”)**

8. Mae'r Rheoliadau Adrodd yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid lunio adroddiad ar gyflawniadau addysgol disgyblion, bob blwyddyn ysgol, a sicrhau ei fod ar gael i bob rhiant neu ddisgybl sy'n oedolyn. Ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20, bydd rhywfaint o'r wybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, naill ai ddim ar gael, ddim yn ystyrion neu'n cael ei hystyried yn amhriodol. Gall hefyd fod yn anodd i benaethiaid lunio adroddiadau cyn diwedd y flwyddyn academaidd, neu wneud hynny'n ysgrifenedig. Cynigir y caiff y Rheoliadau Adrodd eu diwygio ar sail “ymdrechion rhesymol”. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried bod angen trin unrhyw ddyletswyddau y mae'r Rheoliadau Adrodd yn eu gosod ar benaethiaid o ran adroddiadau sy'n ymwneud â blwyddyn ysgol 2019/20 fel rhai wedi'u cyflawni, os yw'r pennaeth wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd. Yr eithriad i'r “ymdrechion rhesymol” yw rheoliad 5(1) o'r Rheoliadau Adrodd, sef **y gofyniad i ddarparu adroddiad i ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol, sy'n parhau'n ddyletswydd absoliwt**, fel nad yw'r cohort hwn o ddysgwyr o dan anfantais eleni.

## **Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion”)**

9. Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi prosiectws ysgolion cyfansawdd ac i ysgolion gyhoeddi eu prosiectws unigol eu hunain, ac mae'n nodi'r wybodaeth sydd angen i'r ysgolion ei chynnwys. Cynigir y gwneir darpariaeth i beidio â chyhoeddi data ar absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig mewn perthynas â'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/2020 mewn unrhyw brosiectws ysgol.

## **Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol”)**

10. Mae'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion lunio adroddiad blynyddol, yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yr ysgol yn erbyn targedau a gyhoeddir. Er y bydd cyrff llywodraethu yn gallu llunio adroddiad o hyd, byddai'n amhriodol i adroddiadau a gaiff eu llunio mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20 gynnwys data perfformiad a phresenoldeb, am na ellir eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Cynigir y caiff Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol eu diwygio er mwyn addasu cynnwys yr adroddiadau a luniwyd mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2019/20 fel nad yw'r wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad gan lywodraethwyr yr ysgol. **Bydd dyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu i lunio adroddiad yn parhau.**

11. Gwybodaeth i'w datgymhwyso/ei heithrio mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20:

- y Crynodeb diweddaraf o Berfformiad Ysgol Uwchradd;
- nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol;
- unrhyw wybodaeth mewn perthynas â thargedau perfformiad ac absenoldeb, gan gynnwys gwelliannau sydd wedi'u pennu gan y corff llywodraethu mewn perthynas â pherfformiad dysgwyr, neu ar gyfer gostwng lefelau absenoldeb.

## **Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Perfformiad”)**

12. Mae'r Rheoliadau Perfformiad yn darparu ar gyfer adrodd ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac arholiadau (o ysgolion a chyrff llywodraethu i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru). Gwelwyd cryn dipyn o amharu ar y gwaith o ymgymryd ag asesiadau athrawon y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol yn ystod tymor yr haf 2019/20, gan fod ysgolion wedi cau, a chafodd y dasg o gasglu data statudol cysylltiedig Llywodraeth Cymru ei ganslo. Felly, argymhellir y caiff diwygiadau eu gwneud er mwyn dileu'r dyletswyddau ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ddarparu data, y naill i awdurdodau lleol, a'r llall i Weinidogion Cymru, ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac absenoldebau awdurdodedig neu anawdurdodedig ar gyfer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion yn y flwyddyn ysgol 2019/20. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar fesurau perfformiad ysgolion 2019/20, ac ni fydd yn eu cynnwys yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ('pecynnau data') na'u cyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol. Fodd bynnag, bydd angen i ni gadw'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gael canlyniadau cymwysterau a gymeradwywyd, at ddibenion eraill nad ydynt yn gysylltiedig â pherfformiad ysgol nac atebolrwydd yr ysgol.



13. Noder y cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar wahân ar ddiwygio'r Rheoliadau Perfformiad yn gynharach eleni (WG39862). Roedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â'r gwaith gorfodol o adrodd ar ganlyniadau profion darllen a rhifedd cenedlaethol i awdurdodau lleol. Mae effaith rheoleiddiol ehangach COVID-19 wedi cael blaenoriaeth ar gyfer 2019/20, ond caiff canlyniad yr ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi maes o law.

## **Diwygiadau i bolisi canlyniadol**

14. O ystyried effaith yr amharu ar weithrediadau ysgolion a'r ffaith bod arholiadau haf TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u canslo, caiff trefniadau arferol ar gyfer adrodd ar ganlyniadau perfformiad ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 eu hatal. Mewn ymateb i'r newidiadau rheoliadol i drefniadau adrodd a chofrestru, bydd Llywodraeth Cymru yn atal cynnwys mesurau perfformiad yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, Crynodeb o Berfformiad Ysgol Uwchradd ac agweddau perthnasol ar wefan Fy Ysgol Leol.

15. Bydd dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau TGAU, UG neu safon Uwch yn cael gradd o hyd, yn ogystal â'r rheini sy'n cwblhau Tystysgrif Her Sgiliau. Rydym yn hyderus y bydd cymwysterau eleni yn gyson ac yn gadarn, ond er y bydd ganddynt yr un gwerthoedd i ddysgwyr, ni chânt eu defnyddio i fesur perfformiad ysgol na dwyn ysgolion i gyfrif.